

DAEARYDDIAETH DDYNOL

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr: Atebwch 2 gwestiwn.

1. Pa effeithiau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o'u cael ar wahanol rannau o'r byd a sut y gallai gwladwriaethau arwain y ffordd i leddfu'r heriau hyn?
 2. Sut y gallai defnyddio technolegau clyfar (e.e. ffonau clyfar, technolegau gwisgadwy, biometreg ac ati) fod yn newid ystyr yr hyn yw bod yn ddinesydd?
 3. Bydd sydd gan ddaearyddiaeth ddynol i'w gyfrannu i ddealltwriaethau o refferendwm aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd 2016 a sut y gallai ein cynorthwyo i ddehongli'r canlyniadau?
 4. Beth y mae polisiâu Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol o greu 'amgylchedd gelyniaethus' i fewnfwydwr yn ei ddweud wrthym ynglŷn â syniadau am ymfudo a symudedd pobl?
 5. Pa fewnwelediadau i faes daearyddiaeth ddynol a geir o astudio daearyddiaeth ddynol?
 6. Ai datblygu cynaliadwy yw'r ateb i broblemau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y byd?
 7. Pa gyfrifoldebau sydd gan ddaearyddwyr tuag at y bobl, y lleoedd, a'r prosesau y maent yn eu hastudio?
 8. I ba raddau y dylai amcanion datblygu bwysleisio lles dinasyddion yn hytrach na'u gwneud yn fwy cyfoethog?
 9. Trafodwch rai ffyrdd penodol y gall map ddylanwadu ar ein canfyddiad o'r realaeth y mae'r map i fod i'w adlewyrchu.
 10. Mae prinder tai enbyd yn nifer o ddinasoedd mwyaf y byd. Gan gyfeirio at un o'r dinasoedd mawr hynny y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, disgrifiwch achosion ac effeithiau prinder o'r fath, a thrafod sut y gellid mynd ati i'w datrys.
-